

## **Adolygiad o'r gofal a ddarparwyd i gleifion ag anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl yn:**

**Tŷ Catrin Ysbyty Iechyd Meddwl  
Annibynnol, Dyfrig Road, Trelái,  
Caerdydd, CF5 5AD**

**Dyddiadau'r ymweliadau:  
22 Gorffennaf 2011, 20 Medi 2011  
& 6 Chwefror 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad a Chefndir	1
2. Ein Canfyddiadau	4
3. Casgliad	15
4. Gofynion	17
5. Y Camau Nesaf	22

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol<sup>1</sup> fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn iddynt gael darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk).

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, '*Panorama*,' yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd, sy'n gwbl ddealladwy. O ganlyniad, penderfynodd AGIC ddwyn ymlaen ein rhaglen flynyddol o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel;
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol;
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol;
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth;
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd;
- cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny;
- cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial;

---

<sup>1</sup> Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

- cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion;
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan eu bod yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau trylwyr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## Tŷ Catrin

1.6 Cofrestrwyd ysbyty annibynnol Tŷ Catrin (Tŷ Catrin) am y tro cyntaf ar 26 Hydref 2009 gan AGIC, ac ar hyn o bryd, mae wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer pedwar deg dau (42) o gleifion ar bum ward. Mae'r ysbyty yn cynnig gwasanaeth diogelwch isel<sup>2</sup> ar gyfer trin a nyrsio cleifion sydd ag anhwylder personoliaeth<sup>3</sup> a allai hefyd gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983<sup>4</sup>. Pastoral Cymru (Cardiff) Limited yw darparwr cofrestredig<sup>5</sup> yr ysbyty.

1.7 Roedd tîm amlddisgyblaethol llawn yn gweithio yn Nhŷ Catrin, ac roedd aelodau'r tîm yn cynnwys staff meddygol, amrywiaeth o staff nyrsio, therapyddion a

<sup>2</sup> Gwasanaeth diogelwch isel – mae unedau diogelwch isel yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr, amlddisgyblaethol gan staff cymwysedig i gleifion sy'n arddangos ymddygiad cythryblus yng nghyd-destun anhwylder meddwl difrifol ac y mae angen y ddarpariaeth o ddiogelwch isel ar eu cyfer.

<sup>3</sup> Anhwylder personoliaeth – y diffiniad diagnostig yw patrwm parhaus o brofiad mewnol ac ymddygiad sy'n wahanol iawn i'r hyd a ddisgwylid o ystyried diwylliant yr unigolyn, sy'n hollbresennol ac yn anhyblyg, sy'n dod ymlaen yn ystod llecyndod neu oedran cynnar oedolyn, sy'n sefydlog dros gyfnod, ac sy'n arwain at drallod neu amhariad.

<sup>4</sup> Deddf Iechyd Meddwl 1983 – ddeddfwriaeth sy'n rheoli triniaeth pobl sydd ag anhwylder meddwl y difinnir ei fod yn cynnwys salwch meddwl, anhwylder personoliaeth ac anabledd dysgu.

<sup>5</sup> Mae darparwr cofrestredig yn golygu unigolyn neu gwmni sydd wedi ei gofrestru dan ran II o'r Ddeddf fel yr unigolyn sy'n rhedeg y sefydliad neu'r asiantaeth.

thechnegwyr galwedigaethol, seicolegwyr, ffisiotherapyddion a maethegydd. Roedd yr holl gleifion wedi eu cofrestru gyda meddygfa leol.

1.8 Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â Thŷ Catrin ar 22 Gorffennaf 2011. Dilynwyd hyn gan ymweliad dirybudd arall gyda'r nos ar 20 Medi 2011.

1.9 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliadau hynny yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

1.10 Yn dilyn pob un o'n hymweliadau, rhoddwyd adborth manwl ar lafar ar y diwedd, ac yna, anfonwyd llythyr at y darparwr cofrestredig a'r rheolwr yn darparu manylion y tor-rheoliadau.

## 2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau<sup>6</sup> yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'***

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Ni ellir ond ateb y cwestiwn hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'***

2.2 Ar adeg ein hymweliadau, roedd y cleifion yn derbyn gofal ar bedair o'r bum ward sydd ar gael yn Nhŷ Catrin. Yn ystod y ddau ymweliad cyntaf, roedd deg o gleifion benywaidd yn derbyn gofal ar Ward Victoria (gall y ward hon gynnig llety i 11 o gleifion), ac wyth o gleifion benywaidd yn derbyn gofal ar Ward Sophia (yr uchafrif ar gyfer y ward hon). Ar y drydedd ward o'r enw Bute, roedd deg o gleifion gwrywaidd yn derbyn gofal (gan y ward hon gynnig llety i 11 o gleifion). Roedd un claf benywaidd yn derbyn gofal ar Ward Roath (sydd wedi ei chofrestru ar gyfer wyth o gleifion). Roedd y claf benywaidd hon yn eithriadol o heriol i'r sefydliad, ac fe'n cynghorwyd bod y claf wedi gwaethygu ar ôl iddi gael ei derbyn i Dŷ Catrin. Er bod camau wedi eu cymryd i gael trefniadau gofal priodol ar gyfer yr unigolyn hwn, roedd yn amlwg ar adeg ein hymweliad fod y claf benywaidd hon angen gofal mewn amgylchedd diogelwch canolog, ac roedd trefniadau ar gyfer ei throsglwyddo i'r math hwnnw o sefydliad yn cael eu gwneud gan Dŷ Catrin. Mae'n hanfodol bwysig fod y darparwr cofrestredig yn bodloni anghenion unigol yr holl gleifion, ac mae'n rhaid

---

<sup>6</sup> Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig.

iddo roi sicrwydd i AGIC fod yr holl dderbyniadau i'r sefydliad yn briodol. Ar adeg ein trydydd ymweliad, a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2012, roedd y claf benywaidd a oedd wedi derbyn llety ar Ward Roath wedi ei throsglwyddo i wahanol ysbyty a oedd yn fwy priodol ar gyfer ei hanghenion.

## Ward Bute

2.3 Roedd cyfleusterau ên-suite ar gael ym mhob ystafell wely ar Ward Bute, roedd safon yr addurno ar y ward yn foddhaol, ac roedd cleifion wedi dod â llawer o bosteri, lluniau ac eitemau personol eraill i sawl ystafell wely er mwyn eu gwneud yn bersonol. Fodd bynnag, roedd marciau ar waliau'r ystafell ysmegu benodedig, ac roedd angen ei hailaddurno'n gyffredinol. Roedd nifer o gadeiriau'r lolfa wedi eu marcio, ac roedd tyllau yn y sofffa. Dywedodd y staff wrthym fod dodrefn eistedd arall wedi eu harchebu yn lle y rhain.

2.4 Nid oedd lluniau nac eitemau defnyddiau meddal ar y ward, ac er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid ystyried y perygl y gallai'r fath eitemau ei achosi i gleifion (yn enwedig i'r rhai hynny sydd â gorffennol o hunan-niweidio, mae angen i Dŷ Catrin wneud mwy i wneud yr amgylchedd yn gartrefol.

## Ward Victoria

2.5 Roedd cyfleusterau ên-suite ar gael ym mhob ystafell wely ar Ward Victoria, ac roedd y ward yn lân ac wedi ei haddurno'r briodol yn gyffredinol, ond prin oedd nifer y lluniau a'r llenni a deunyddiau a oedd yno. Unwaith eto, cydnabyddir y gallai'r eitemau hyn fod yn amhriodol ar gyfer yr holl wardiau a'r holl gleifion, ond mae'n rhaid cyfiawnhau'r ffaith nad ydynt yno ar sail rhesymau clinigol ac asesiadau risg unigol, a chofnodi'r sail resymegol dros wneud penderfyniadau o'r fath yn unol â hynny.

2.6 Yn ystod ein hymweliad ar 22 Gorffennaf, roedd coffi wedi ei arllwys ar y waliau ac roedd yn dal i fod yno trwy gydol y dydd, ac yn ôl yr hyn yr oeddem yn ei weld, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw reswm dros yr oedi i lanhau'r waliau.



Roedd un o oleuadau larwm galw nyrs yn fflachio'n barhaus, a dywedwyd wrthym mai nam trydanol oedd yn gyfrifol am hynny. Roedd hyn yn hollbwysig o ran sicrhau diogelwch y cleifion a'u bod yn cael gofal prydlon, ac amlygwyd gennym fod angen rhoi sylw i hyn fel mater brys. Ar ôl hynny, cawsom gadarnhad fod y golau larwm galw nyrs wedi derbyn sylw.

2.7 Nid oedd y cyfleusterau bwyta ar Ward Victoria yn ddigonol ar gyfer nifer y cleifion ar y ward, ac o ganlyniad, dylid gosod bwrdd bwyta ychwanegol yno.

2.8 Pan ymwelwyd â Thŷ Catrin ar 6 Chwefror 2012, roedd problem ynglŷn â'r gwresogi ar ward Victoria ac roedd y ward yn oer a rhai cleifion yn defnyddio blancedi i'w cadw eu hunain yn gynnes. Cadarnhaodd nifer o gleifion ac aelodau staff fod lefelau'r gwres yn anghyson a bod y ward yn mynd yn oer ar rai adegau.

## Ward Roath

2.9 Ar adeg ein hymweliadau, roedd Ward Roath yn cael ei defnyddio i roi llety i un claf. Er ein bod yn derbyn yr heriau sy'n gysylltiedig â'r grŵp cleifion, roedd angen ailaddurno'r ward yn gyffredinol a gwneud peth gwaith adnewyddu arni.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol?'***

## Niferoedd y Staff

2.10 Amlygodd ein hymweliadau rai materion sylfaenol ynglŷn â staffio, o ran capasiti a galluogrwydd. Er bod y staff y siaradwyd â hwy i gyd, yn ddieithriad, yn ddymunol ac yn ymroddedig, roedd diffygion amlwg yn niferoedd y staff parhaol. Yn benodol, ar ein hail ymweliad â Ward Victoria (20 Medi 2011), roedd deg aelod o staff ar ddyletswydd, ac roedd wyth o'r rhain yn staff asiantaeth <sup>7</sup>. Ar Ward Roath, roedd y claf yn derbyn gofal gan dri aelod o staff, ac roedd y rhain i gyd yn staff

asiantaeth. Amlygodd ein hadolygiad o restrau dyletswyddau'r staff nad oedd y rhain yn achlysuron unigryw. Er bod Tŷ Catrin yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod yr un staff asiantaeth yn cael eu defnyddio pan oedd yn bosibl, nid oedd y defnydd o lefelau mor uchel o staff asiantaeth yn gynaliadwy. Mae'n bwysig fod cleifion, yn enwedig y rhai hynny sydd ag anhwylder personoliaeth, yn cael yr un aelodau o staff yn darparu gofal ar eu cyfer er mwyn gallu datblygu perthynas therapiwtig lwyddiannus ac ymddiriedaeth.

2.11 Soniodd y staff wrthynt am gyfraddau uchel o drosiant<sup>8</sup> a'r ffaith fod y staff yn diffygio'n gyflym oherwydd cymysgedd achosion cymhleth y cleifion a oedd yn derbyn gofal ar rai wardiau. Mae angen i Dŷ Catrin sicrhau bod cynlluniau dilyniant a chynlluniau wrth gefn priodol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau ei fod yn gallu rheoli ac ymdrin â throsiant staff yn briodol. Yn ogystal, mae'n hanfodol bwysig fod y staff yn derbyn lefel briodol o oruchwyliaeth a chymorth.

2.12 Yn dilyn ein hymweliad ym mis Medi 2011, cyflwynodd y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu i AGIC yn nodi sut y byddai ein pryderon yn derbyn sylw. Dwy elfen allweddol o'r cynllun hwn oedd i Dŷ Catrin:

- ddechrau cyflogi nifer o staff asiantaeth am gyfnod o dri mis; a
- chychwyn ymgyrch recriwtio ar gyfer cyflogi mwy o staff parhaol.

Mae AGIC wedi derbyn adroddiadau monitro wythnosol gan Dŷ Catrin sy'n nodi'r lefelau staffio. Dilynwyd y mater hefyd fel rhan o'r ymweliad dirybudd a gynhaliwyd gennym ar 6 Chwefror 2012, ac roeddem yn fodlon ar adeg yr ymweliad hwnnw fod camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd AGIC yn parhau i ofyn am ddiweddariadau a sicrhad gan y darparwr cofrestredig ynghylch y lefelau staffio.

---

<sup>7</sup> Mae staff asiantaeth yn cyfeirio at y staff a ddarperir gan drydydd parti (asiantaeth) i weithio yn y sefydliad.

<sup>8</sup> Mae cyfraddau trosiant yn cyfeirio at nifer y staff sydd wedi gorffen gweithio ac sydd wedi dechrau gweithio i'r darparwr cofrestredig.

## Hyfforddiant Staff

2.13 Cyfwelwyd â 22 o aelodau staff yn ystod ein hymweliadau, a oedd yn cynnwys staff parhaol, staff banc<sup>9</sup>, a staff asiantaeth, gan ganfod bod lefel y profiad ar gyfer gofalu am unigolion ag anhwylder personoliaeth yn amrywio ymysg y staff asiantaeth. Nid oedd dau o'r gweithwyr cymorth gofal y siaradwyd â hwy wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn y maes hwn, ac nid oedd tri aelod o staff asiantaeth arall wedi cael unrhyw hyfforddiant sefydlu strwythuredig ar gyfer gweithio yn yr ysbyty. Yn ogystal, yn ystod ein hymweliad ar 22 Gorffennaf 2011, dywedodd un o'r aelodau staff asiantaeth cymorth gofal wrthym nad oedd wedi gweithio mewn ysbyty annibynnol o'r blaen ac nad oedd ganddo/ganddi unrhyw brofiad na hyfforddiant perthnasol i weithio gyda chleifion ag anhwylder personoliaeth.

2.14 Canfuwyd hefyd fod y staff asiantaeth wedi cael hyfforddiant gwahanol ar reoli ac ataliad corfforol i'r hyn yr oedd yr aelodau parhaol o'r staff wedi ei gael. Roedd yn achos pryder i ni y gallai hyn achosi niwed posibl i glaf pe byddai dau ddull gwahanol i'w gilydd o ataliad corfforol yn cael eu defnyddio yn ystod digwyddiad o ataliad corfforol, a dywedwyd wrth Dŷ Catrin fod angen rhoi blaenoriaeth i sicrhau cysondeb o ran yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer y staff. Er i Dŷ Catrin ddweud eu bod yn fodlon fod egwyddorion yr hyfforddiant ar ataliad corfforol yn gyson, maent wedi cadarnhau, ers ein hymweliad ni, eu bod bellach yn defnyddio yr un darparwr hyfforddi ar gyfer yr holl hyfforddiant ar ataliad corfforol.

2.15 Cyfyngedig oedd yr hyfforddiant yr oedd y staff y siaradwyd â hwy yn Nhŷ Catrin wedi ei gael ar amddiffyn plant. Mae'r hyfforddiant hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan y staff ddigon o wybodaeth i sicrhau y gellir gweithredu gweithdrefnau amddiffyn plant yn effeithiol, pan fo angen.

2.16 Yn ychwanegol, yn ystod ein hymweliad a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2012, ar ward Victoria, roedd nifer o gleifion a oedd wedi cael diagnosis o anhwylder bwyta, ond prin oedd yr hyfforddiant yr oedd staff y ward hon wedi ei gael yn y maes hwn. Er y cadarnhawyd bod y cynlluniau gofal ar gyfer y cleifion hyn wedi eu datblygu gan

---

<sup>9</sup> Mae staff banc yn cael eu cyflogi gan sefydliad ar sail sesiynol pan fo angen, a hynny ddim o anghenraid yn amser llawn nac yn rhan-amser, ond gellid contractio rhai staff banc yn rheolaidd.

y tîm amlddisgyblaethol, dywedodd y staff nyrsio a'r staff gofal iechyd wrthym eu bod o'r farn y byddent yn elwa ar gael mwy o hyfforddiant fel eu bod yn gallu rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn y modd mwyaf priodol.

2.17 Roedd adborth gan y staff yn dangos bod angen datblygu mwy ar y systemau goruchwyllo a gwerthuso. Roedd Nyrs Arbenigol wedi ei benodi/phenodi gyda chyfrifoldeb penodol dros gynnal sesiynau goruchwyliaeth grŵp, ond cydnabuwyd bod angen datblygu'r maes hwn a'i wneud yn fwy strwythuredig. Roedd Arbenigwr Nyrsys Clinigol hefyd wedi ei benodi/phenodi yn ddiweddar.

2.18 Yn dilyn ein hymweliadau, fe'n hysbyswyd yn ddiweddarach fod rhaglen hyfforddiant sefydlu strwythuredig wedi ei datblygu ar gyfer y staff asiantaeth ac y byddai hynny'n darparu hyfforddiant cychwynnol ar gyfer gweithio gyda chleifion ag anhwylder personoliaeth.

## **Polisïau a Gweithdrefnau**

2.19 Er mwyn i sefydliad allu gweithredu'n ddiogel ac yn gyson, dylai pob aelod o'r staff fod yn gwybod sut i gael gfael ar bolisïau a gweithdrefnau a dangos eu bod yn gyfarwydd â hwy. Mae enghreifftiau o'r polisïau allweddol y mae'n rhaid i'r staff fod yn gyfarwydd â hwy ac y dylent fod ar gael iddynt yn cynnwys: rheoli meddyginiaethau, rheoli ac ataliad corfforol, Adran 17 – absenoldeb pan fo unigolyn yn cael ei gadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, hebrwng cleifion yn y gymuned, a chwynion. Roedd Tŷ Catrin wedi sefydlu amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau, ond ar adeg ein hymweliad, canfuwyd nad oedd rhai o aelodau'r staff yn gallu dod o hyd i ffeil copi caled y polisïau a'r gweithdrefnau na fersiwn electronig ohonynt. Er bod y staff yn gallu dangos bod ganddynt ryw faint o wybodaeth o'r gwahanol bolisïau a gweithdrefnau a oedd wedi eu sefydlu, mae angen i gopïau o'r polisïau a'r gweithdrefnau fod ar gael iddynt pan eu bod mewn amheuaeth, ac o ganlyniad, mae'n rhaid unioni'r sefyllfa hon.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu***

*hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau a'u hannog i wneud hynny?'*

## **Adolygu Dogfennau Cynlluniau Gofal**

2.20 Adolygwyd dogfennau cynlluniau gofal, a chanfuwyd tystiolaeth i ddangos bod cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal. Roedd dewisiadau ac anghenion y cleifion wedi eu cofnodi'n dda, ac roedd yn amlwg fod newidiadau i'r cynlluniau yn cael eu trafod gyda'r cleifion. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod perthnasau'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal, ac nid oedd unrhyw gofnod ysgrifenedig ar gael yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd ar y ward a oedd yn rhoi rheswm dros eu diffyg cyfraniad. Yn ogystal, roedd rhai anawsterau ynglŷn â staff y ward yn ceisio cael gafael ar nodiadau hanesyddol a oedd yn hanfodol wrth lunio adroddiadau a chynlluniau gofal. Er bod Tŷ Catrin wedi dweud wrthym fod y math hwnnw o wybodaeth ar gael yn electronig, mae angen iddo sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i gael gafael ar gofnodion o'r fath.

2.21 Roedd amrywiaeth o wahanol fathau o asesiadau risg cleifion unigol wedi eu sefydlu. Mae'n hollbwysig fod yr asesiadau risg hyn yn sail i'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â gofal a thriniaeth cleifion unigol, a dylai nifer y penderfyniadau cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl gleifion fod mor isel â phosibl. Mae'n rhaid i'r holl benderfyniadau gael eu seilio ar sail resymegol gadarn a rhesymol a ddylai gael ei hegluro i'r cleifion a'i chofnodi'n eglur.

2.22 Mae Tŷ Catrin yn cyflogi dau weithiwr cymdeithasol, ac roedd eu gwaith gyda'r cleifion wedi ei gofnodi'n dda iawn. Roedd hon yn fenter gadarnhaol iawn y dylid ei datblygu ymhellach er mwyn gallu ystyried pob agwedd ar y Dull Rhaglen Gofal<sup>10</sup>. Roedd cyfeiriadau yn y dogfennau a archwiliwyd gennym at gleifion yn cael eu gweld gan eu cydlynnydd gofal yn y gymuned<sup>11</sup> ac at deuluoedd yn cael eu

---

<sup>10</sup> Dull Rhaglen Gofal – Mae hon yn system gydlynol o reoli gofal, sydd wedi ei seilio ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y penderfynir arni yn unol ag anghenion yr unigolyn. Ceir pedair elfen yn y Dull Rhaglen Gofal, sef asesiad systematig, datblygu cynllun gofal, penodi cydlynnydd gofal, a chynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynllun.

<sup>11</sup> Cydlynnydd Gofal yn y Gymuned – Gweithiwr proffesiynol cymwysedig ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n llunio ac yn goruchwylio cynllun gofal yn rhan o'r Dull Rhaglen Gofal.

gwahodd i gyfarfodydd y Dull Rhaglen Gofal. Fodd bynnag, roedd y system cadw cofnodion yn wasgarog. Roedd yn anodd cael gafael ar rai agweddau ar y dogfennau Dull Rhaglen Gofal, ac nid oedd cynllun rhyddhau cleifion wedi ei llunio yn rhan o'r broses Dull Rhaglen Gofal. Roedd hefyd ddiffyg tystiolaeth o ymagwedd systematig at gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial?'***

## **Gweithgareddau'r Cleifion**

2.23 Trafodwyd ystod o faterion gyda'r cleifion, gan ganolbwyntio ar ba un a oeddent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo'n briodol. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael gwneud rhai penderfyniadau ynglŷn â'u trefn ddyddiol, ond roedd y ffaith fod y cleifion *'wedi diflasu'* yn thema a oedd yn codi'n aml iawn. Yn benodol, prin oedd y gweithgareddau a oedd ar gael yn ystod y penwythnosau a chyda'r nos. Dywedodd nifer o'r cleifion gwrywaidd wrthym mai prin oedd y sesiynau a oedd ar gael i'w helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol, megis sesiynau gwaith coed.

2.24 Mater arall a godwyd fel problem gan y cleifion oedd mai prin oedd y cyfleusterau campfa a oedd ar gael, yn ogystal â'r ffaith nad oedd staff a oedd yn gymwys i oruchwylio sesiynau ar gael yn rhwydd. Mynegwyd pryderon ganddynt hefyd ynglŷn â chael mynd allan o'r adeilad. Yn benodol, gwelsom nodiadau atgoffa wedi eu harddangos yn swyddfeydd y staff a oedd yn nodi na chaniateir i'r cleifion fynd i'r gerddi ar ôl iddi dywyllu. Unwaith eto, roedd hyn yn dystiolaeth o ymagwedd gyffredinol at reoli'r holl gleifion ar y ward, yn lle ymagwedd unigol a oedd wedi ei seilio ar risg ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae Tŷ Catrin wedi egluro ei fod o'r farn ei bod yn anymarferol rheoli pob problem ar sail claf unigol. Felly, mae angen iddo ddatgan ei benderfyniadau yn eglur ynglŷn â'r materion hynny y mae ganddo *'ymagwedd gyffredinol'* atynt i'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau ganddo, er

mwyn i'r comisiynwyr, ynghyd â'u cleifion, allu gwerthuso pa un a ydynt o'r farn fod ymagwedd o'r fath yn briodol ar gyfer lles a gofal eu cleifion.

2.25 Er bod y cynlluniau gofal yn cyfeirio at weithgareddau therapi grŵp, nid oedd rhaglen yn nodi ystod y gweithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion wedi ei harddangos ar y wardiau. Ar adeg ein hymweliadau, ni welwyd unrhyw weithgareddau grŵp yn cael eu cynnal ar y wardiau, ond roedd nifer o gleifion yn cymryd rhan mewn sesiynau therapi unigol.

## Maeth

2.26 O ran diet a maeth, roedd yn achos pryder i ni nad oedd un claf yn cael diet â llai o fraster er gwaetha'r ffaith fod hyn wedi ei nodi yng nghynllun gofal yr unigolyn. Codwyd y mater hwn gyda'r staff ar ail ddiwrnod ein hymweliad, a gwnaethant gydnabod nad oedd diet â llai o fraster wedi ei ddarparu, gan unioni'r mater ar ôl hynny. Roedd claf arall wedi gofyn am rawnfwyd brecwast penodol ond nid oedd wedi ei gael. Roedd rhai cleifion yn cwyno hefyd fod rhai dognau bwyd a ddarperir ar gyfer y pryd bwyd gyda'r nos yn rhy fach ac nad oedd digon o amrywiaeth a dewis ar gael.

2.27 Mynegodd cleifion ar Ward Bute Ward bryder mai coffi digaffein yn unig yr oedd Tŷ Catrin yn ei ddarparu, a bod yn rhaid iddynt ddarparu eu coffi â chaffein eu hunain os oeddent ei eisiau. Canfuwyd mai polisi Tŷ Catrin oedd darparu coffi digaffein yn unig oherwydd bod y darparwr cofrestredig o'r farn fod '*caffein yn sylwedd sy'n gallu cael effeithiau niweidiol ar y grŵp cleifion.*' Er ein bod yn cydnabod y gallai caffein effeithio ar dymer, er lles gorau'r cleifion, dylai pob penderfyniad ynglŷn â gofal gael ei seilio ar risg a'i wneud ar sail unigol, yn hytrach na'i gymhwyso ar gyfer yr holl gleifion yn rhan o ymagwedd gyffredinol.

2.28 Ar Ward Bute a Ward Victoria, canfuwyd bod y cleifion yn cael trafferth i gael gafael ar ddŵr ffres oherwydd bod y staff yn rheoli mynediad i gegin y ward. Roedd hyn yn achos pryder arbennig o ran annog annibyniaeth a dewis, ac mae'n hawl sylfaenol i'r cleifion. Yn ogystal, dim ond am ddwy awr ar y mwyaf yr oedd bwyd a geid o'r brif gegin yn cael ei gadw, a dywedodd y cleifion wrthym nad ydynt bob amser yn dymuno bwyta ar amserau bwyd penodol y ward. O ganlyniad, mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth arall yn cael ei gwneud ar gyfer y cleifion hynny a allai fod yn dymuno bwyta eu bwyd y tu allan i'r amser bwyd penodol.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymwelriad yn cael defnyddio gwasanaethau eiriolwyr annibynnol ac a oeddynt yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?'***

## **Defnyddio Gwasanaethau**

2.29 Roedd lefel dda o ddealltwriaeth ymysg y cleifion am sut i fynegi unrhyw bryderon a chwynion, hefyd, yr oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth. Fodd bynnag, ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, canfuwyd bod diffyg gwybodaeth i gleifion wedi ei harddangos am wasanaethau eiriolaeth a sut i wneud cwyn ar gyfer y cleifion a'u perthnasau.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymwelriad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan oeddynt yn dymuno gwneud hynny?'***

## **Cymorth i Gleifion ar gyfer Cynnal Perthynas â Ffrindiau ac Aelodau o'r Teulu**

2.30 Roedd nifer o gleifion yn cwyno am y gost uchel o ddefnyddio'r ffôn talu ar Ward Bute, ac am y ffaith nad oedd unrhyw dariffau talu wedi eu harddangos fel eu bod yn gallu deall y taliadau yr oeddent yn eu talu.



2.31 Roedd nifer o gleifion yn derbyn absenoldeb adran 17<sup>12</sup>, ac roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal perthynas ag aelodau o'u teulu. Fodd bynnag, roedd yn achos pryder i ni fod rhai achlysuron pan oedd cleifion, nad oedd eu hamser gadael yn agos, yn cael eu hebrwng yn y gymuned yn ystod eu habsenoldeb gan ddim ond un aelod o staff. Mae'n rhaid adolygu'r sefyllfa hon, yn unol ag asesiad risg unigol, oherwydd efallai na fyddai'n ymarferol i un aelod o staff gynnal arsylwadau parhaus ar glaf, pe byddai angen hynny. O ganlyniad, mae'n bwysig adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau a sicrhau eu bod ar gael i'r staff.

---

<sup>12</sup> Absenoldeb Adran 17 – Caniatâd ffufiol ar gyfer claf sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty i gael bod yn absennol am gyfnod o amser. Mae'r claf yn parhau i fod dan bwerau'r Ddeddf pan ei fod ar absenoldeb, a cheir ei alw yn ôl i'r ysbyty ar unrhyw adeg.

### 3. Casgliad

#### *'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'*

3.1 Canfuwyd nifer o achosion o dor-rheoliadau sylweddol yn ystod yr ymweliad a gynhaliodd AGIC ar 20 Medi 2011. Un o'r agweddau a oedd yn achosi'r pryder mwyaf yn ystod yr ymweliad oedd y diffyg unigolion medrus a phrofiadol a oedd yn yr ysbyty, a'r defnydd uchel o staff asiantaeth nad oedd ganddynt yr hyfforddiant na'r profiad angenrheidiol i weithio gyda'r grŵp cleifion.

3.2 Ar 20 Medi 2011, pan gyrhaeddodd arolygwyr AGIC y sefydliad, nid oedd y staff yn gwybod pwy oedd â gofal am yr ysbyty. Yn dilyn hynny, roedd y darparwr cofrestredig wedi ymateb i hyn trwy gadarnhau wrth AGIC fod rhestr dyletswyddau staff wedi ei llunio a oedd yn nodi enw'r unigolyn a oedd â gofal am yr ysbyty, a bod y wybodaeth hon wedi ei lledaenu i bob ward ac i staff y dderbynfa.

3.3 Yn union ar ôl ein hymweliadau a gynhaliwyd ar 20 Medi 2011 a 6 Chwefror 2012, ysgrifennodd AGIC at y darparwr cofrestredig yn amlinellu'r materion yr oedd angen rhoi sylw brys iddynt. Mewn ymateb i'n llythyr, cyflwynodd y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu i AGIC, ac ar ôl hynny, anfonodd ddiweddariadau wythnosol i AGIC ynglŷn â'r lefelau staffio. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cytunodd y darparwr cofrestredig i beidio â chynyddu niferoedd cyffredinol y cleifion yn uwch na lefelau nifer y cleifion a oedd yn derbyn llety yn ystod yr ymweliad arolygu. Mae'r gohiriad dros dro hwn ynghylch derbyniadau newydd bellach wedi ei ddiddymu, gan fod AGIC wedi cael sicrhad boddhaol fod y niferoedd staffio erbyn hyn ar lefel sy'n briodol ar gyfer sicrhau gofal a diogelwch y cleifion.

3.4 Dyma'r camau a gymerwyd gan y darparwr cofrestredig mewn ymateb i'r gofynion:

- Cyflogi staff asiantaeth am gyfnod o dri mis i gychwyn, ac yn ystod yr amser hwn, dechrau cynnal ymgyrch recriwtio ar gyfer cyflogi mwy o staff.

Adroddwyd wrth AGIC am gynnydd yn y maes hwn ar ffurf adroddiadau wythnosol.

- Llunio a gweithredu rhaglen hyfforddi strwythuredig sy'n cynnwys y staff asiantaeth.
- Roedd adolygiad o'r broses o benderfyniadau mympwyol oedd yn cael eu gwneud ar gyfer y cleifion wedi arwain at y ffaith fod y darparwr cofrestredig wedi llunio dogfen sy'n rhoi arweiniad i'r staff. Fodd bynnag, roedd ymagwedd y darparwr cofrestredig at beidio â darparu cynhyrchion caffein yn parhau i fod yn anhyblyg. Mae hyn yn amlwg yn enghraifft o '*ymagwedd gyffredinol*' yn cael ei gosod ar yr holl gleifion, ac nid ymagwedd sy'n cael ei seilio ar risgiau unigol y cleifion.
- Adolygu'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn cael diet priodol, a bod dewisiadau unigol, pan fo'r rheini'n rhesymol, yn cael eu hystyried.
- Rhoi ffeiliau polisi ym mhob un o'r wardiau, ac ar y gyriant a rennir yn y cyfrifiaduron.
- Gweithredu system ar gyfer nodi'n brydlon pa bryd nad yw goruchwyliaeth staff yn cael ei chynnal.

3.5 Er bod nifer o broblemau sylweddol wedi eu nodi yn yr adroddiad, mae'r darparwr cofrestredig wedi rhoi nifer o gynlluniau gweithredu ar waith, ac mae cryn drafodaeth wedi bod ag AGIC. Mae nifer o welliannau wedi eu nodi, ac mae'n rhaid cynnal y rhain. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd gennym unrhyw bryderon dybryd ynglŷn â diogelwch y cleifion.

## 4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'* sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynno Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
25	20 (1) (a) a (b) a 21 (2) (b)	2.12	Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unigolion sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol bob amser yn gweithio yn y sefydliad, yn enwedig o ran hyfforddiant a phrofiad ynglŷn ag anhwylder personoliaeth.	Yn ddi-oed a pharhaus.
25	20 (1) (a) a (b) a 21 (2) (b)	2.13	Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig barhau i sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant cyson ar dechnegau rheoli ac ataliad corfforol.	Yn ddi-oed a pharhaus.

25	20 (1) (a) a (b) a 21 (2) (b)	2.14 a 2.15	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod unigolion sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol bob amser yn gweithio yn y sefydliad, ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac anhwylderau bwyta.	Yn ddi-oed a pharhaus ar gyfer goruchwyliaeth ac angen cadarnhad, erbyn 31 Mai 2012, fod y staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac anhwylderau bwyta.
25	20 (2) (a)	2.16	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod system briodol wedi ei sefydlu ar gyfer goruchwyllo a gwerthuso pob aelod o'r staff.	Mae angen anfon cynllun gweithredu erbyn 31 Mai 2012.
12 ac 14	15 (1) (a) (b) ac (C), 24 (3) a 26 (2) (a) a (b)	2.4, 2.5, 2.6, 2.7, 2.8, 2.9, 2.23 a 2.24	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig roi sylw i'r holl feysydd a nodir yn yr adroddiad o ran: <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ailaddurno ac adnewyddu.</li> <li>▪ Gwneud yr amgylchedd yn fwy cartrefol.</li> <li>▪ Sicrhau bod y penderfyniad i wahardd eitemau wedi ei seilio ar risg unigol.</li> <li>▪ Sicrhau bod y system galw nyrs yn gweithio'n iawn (mae cadarnhad wedi ei dderbyn fod hyn wedi derbyn sylw).</li> <li>▪ Sicrhau bod dŵr ffres ar gael yn rhwydd i'r cleifion.</li> </ul>	Mae angen anfon cynllun gweithredu erbyn 31 Mai 2012 yn nodi sut y bydd yr holl feysydd hyn yn derbyn sylw.

			<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Sefydlu system ar gyfer cleifion sydd eisiau bwyta y tu allan i amserau penodol prydau bwyd.</li> <li>▪ Sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau gwasanaethau eiriolaeth ac am sut i wneud cwyn yn cael ei harddangos.</li> <li>▪ Darparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer bwyta ar Ward Victoria.</li> <li>▪ Sicrhau bod tymheredd y gwres yn gyson ar Ward Victoria.</li> <li>▪ Dylid cadw cofnod o dymheredd yr oergelloedd a'r rhewgelloedd.</li> </ul>	
2 a 3	15 (1) (a) a (b)	2.18, 2.19, 2.20 a 2.25	<p>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r cleifion, gan gynnwys ar y penwythnosau.</p> <p>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am daliadau ffon talu ar gael i'r cleifion, er mwyn iddynt allu gwneud dewis cytbwys ynglŷn â defnyddio'r cyfleuster hwn ai peidio.</p>	Mae'n rhaid sefydlu cynllun gweithredu erbyn 31 Mai 2012 ar gyfer rhoi sylw i'r maes hwn.

14	15 (9) (b)	2.21 a 2.22	Mae'n rhaid i'r cleifion gael diet sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion dietegol unigol, ac mae'n rhaid seilio unrhyw benderfyniadau i gyfyngu ar gynhyrchion caffein ar anghenion unigol a pheidio eu cymhwyso'n fympwyol ar gyfer yr holl gleifion.	Yn ddi-oed a pharhaus.
8	15 (1) (a) a (b)	2.15 a 2.16	Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y teuluoedd yn cymryd rhan yng ngofal y cleifion, pan fo hynny'n briodol.  Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gyffredinol, ond yn hytrach, eu bod yn cael eu gwneud ar sail anghenion asesedig unigol y cleifion.	Yn ddi-oed a pharhaus.
2 a 3	15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a) a (b)	2.3 a 2.10	Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn gallu bodloni holl anghenion unigol y cleifion, a pharhau i sicrhau AGIC fod yr holl dderbyniadau i'r sefydliad yn briodol a'u bod yn parhau i fod yn briodol, a bod gan y staff y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer bodloni anghenion yr holl gleifion sy'n derbyn llety.	Yn ddi-oed a pharhaus.

18	9 (5)	2.18	Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i bob aelod o'r staff, a bod y staff yn cael hyfforddiant priodol ar sut i'w gweithredu.	Yn ddi-oed a pharhaus.
----	-------	------	---	------------------------



## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Bydd AGIC yn cynnal mwy o ymweliadau â Thŷ Catrin, a bydd cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r cynllun gweithredu yn cael ei asesu ymhellach.

5.2 Bydd yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu wedi ei ddiweddarau i AGIC sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion rheoleiddio a nodir yn yr adroddiad hwn o fewn pythefnos.